Cyllid & Tollau EF

# Domisil y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Atodlen D31

## Pryd i ddefnyddio'r atodlen hon

Llenwch yr atodlen hon os gwnaethoch roi gwybod nad oedd y person (y trosglwyddwr/setlwr) â'i ddomisil yn y Deyrnas Unedig (y DU) a bod y naill neu'r llall yn berthnasol:

- bu farw cyn 6 Ebrill 2025
- digwyddodd y digwyddiad trethadwy cyn 6 Ebrill 2025

Gallwch hefyd lenwi'r ffurflen hon i roi gwybod i ni ynghylch domisil y person at ddibenion trosglwyddiadau trethadwy ar neu ar ôl 6 Ebrill 2025 lle bo confensiwn trethiant dwbl yn berthnasol oherwydd domisil y person.

Darllenwch yr arweiniad ynghylch 'Domisil' yn yr adran nodiadau cyn llenwi'r atodlen hon.

**Enw'r trosglwyddwr/setlwr**

**Dyddiad y trosglwyddiad neu'r digwyddiad trethadwy** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant** os yw'n hysbys

**Os oes angen help arnoch**

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant neu, fel arall, gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 1900.

## Manylion y trosglwyddwr/setlwr

1 **At ddibenion Treth Etifeddiant, a oedd y person â'i ddomisil yn y DU ar unrhyw adeg yn ystod y 3 blynedd cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn y tabl?** Rhowch 'X' yn y blwch

Na

Iawn

| Digwyddiad trethadwy | Dyddiad |
|---|---|
| (IHT100a) Rhodd neu drosglwyddiad arall o werth | Dyddiad y rhodd/trosglwyddiad o werth |
| (IHT100b) Cyfran o feddiant wedi dod i ben | Pryd y gwnaeth y setlwr greu'r ymddiriedolaeth (neu ychwanegu ati) |
| (IHT100e) Tâl cyfradd unffurf | Dyddiad y digwyddiad |
| (IHT100d) Prif dâl | Pryd y gwnaeth y setlwr greu'r ymddiriedolaeth (neu ychwanegu ati) |
| (IHT100c) Tâl cymesur | |

2 **A oedd y person yn breswylydd yn y DU, at ddibenion Treth Incwm, yn ystod y 6 blynedd cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn yr ateb yng nghwestiwn 1?**

Na ☐

Iawn ☐ Rhowch fanylion unrhyw gyfnodau yn ystod yr 20 mlynedd hyd at y dyddiad perthnasol pan gafodd y person (y trosglwyddwr/setlwr) ei drin fel preswylydd yn y DU

3 **A ydych yn disgwyl i delerau'r confensiwn neu gytundeb trethiant dwbl fod yn berthnasol i unrhyw un o'r asedion sydd wedi'u cynnwys yn y digwyddiad trethadwy hwn?**

Na ☐

Iawn ☐

4 **A oes angen talu unrhyw dreth dramor ar asedion yn y DU o ganlyniad i'r digwyddiad trethadwy hwn?**

Na ☐

Iawn ☐

## Hanes y person (y trosglwyddwr/setlwr)

Mae angen yr wybodaeth hon arnom er mwyn cael hanes cyflawn o fywyd y person hyd at ddyddiad y digwyddiad trethadwy. Bydd hyn yn ein helpu i bennu domisil y person ar yr adeg honno.

5 **Ble cafodd y person ei eni?**

Tref

Gwlad

6 **Beth oedd cenedligrwydd y person ar adeg ei eni?**

7 **Beth oedd domisil gwreiddiol y person?**

8 **Beth oedd cenedligrwydd y person ar adeg y trosglwyddiad neu'r adeg pan wnaed y setliad neu ychwanegwyd ato?**

## Hanes y person (y trosglwyddwr/setlwr) parhad

9 **Ar ba ddyddiadau y gwnaeth y person adael y DU er mwyn sefydlu ei brif gartref dramor?**

10 **Rhowch fanylion am addysg a hanes cyflogaeth y person.**

11 **Rhowch fanylion am ymweliadau'r person â'r DU – pa mor hir y gwnaeth y person aros, a beth oedd pwrpas yr ymweliadau hynny?**

Os mai dyn oedd y person, rydych wedi gorffen llenwi'r ffurflen hon.
Os mai menyw oedd y person, ac os oedd hi wedi priodi cyn 1 Ionawr 1974, ewch ati i lenwi gweddill y ffurflen. Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd bod domisil gŵr yn effeithio ar ddomisil menyw briod os gwnaethant briodi cyn y dyddiad hwn.

12 **Ble cafodd gŵr y person ei eni?**

Tref

Gwlad

13 **Beth oedd cenedligrwydd gŵr y person ar adeg ei eni?**

14 **Beth oedd cenedligrwydd y gŵr? Os bu farw'r gŵr, beth oedd ei genedligrwydd pan fu farw?**

15 **Rhowch fanylion am addysg a hanes cyflogaeth y gŵr yn ystod y cyfnod yr oedd yn briod â'r person, hyd at a chan gynnwys 1 Ionawr 1974.**

**Os oedd gan y person fwy nag un gŵr cyn y dyddiad hwn, rhowch wybod i ni am bob gŵr hyd at a chan gynnwys 1 Ionawr 1974.**